# Am y swydd

## Rheolwr Prosiect: Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

Mae'r swydd hon yn rhoi cyfle i chwarae rhan annatod wrth gyflawni prosiectau trawsnewidiol yng Ngogledd Cymru a fydd yn cael effaith ar yr economi i ysgogi twf, denu buddsoddiad a chreu swyddi. Bydd y Rheolwr Prosiect yn gweithio'n bennaf o fewn y Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys tri phrosiect annibynnol sy'n cael eu harwain gan bartneriaid rhanbarthol fel yr amlinellir isod.

| Enw Prosiect | Noddwr Prosiect | Sector |
|---|---|---|
| Canolfan Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | Bwyd |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | Twristiaeth |
| Anturiaethau Cyfrifol | Zip World | Twristiaeth |

Bydd y Rheolwr Prosiect yn gyfrifol am gefnogi noddwyr y prosiectau i gyflawni trwy ddatblygu achosion busnes manwl yn ôl Model Pum Achos y Trysorlys. Bydd y cam datblygu hwn yn cynnwys gweithio gyda byrddau prosiect, nodi'n rhagweithiol risgiau a materion a dyfeisio mesurau lliniaru, helpu i drefnu gweithdai i randdeiliaid i bennu cwmpas prosiectau a gwneud argymhellion ynghylch blaenoriaethau economaidd, trefniadau masnachol a chyflawni targedau sero net a bioamrywiaeth i'r Bwrdd.

Unwaith bydd yr achosion busnes yn cael eu cymeradwyo, bydd y Rheolwr Prosiect wedyn yn cefnogi ein partneriaid gyda gweithgaredd caffael ac ymgysylltu â'r farchnad gan arwain at ddarparu buddsoddiad cyfalaf a rheoli contractau. Mae adrodd, monitro a gwerthuso hefyd yn agweddau allweddol ar y rôl.





# Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

## Bwyd-amaeth a Thwristiaeth

- Rheoli'r ymgysylltu gyda noddwyr prosiect allanol, sicrhau bod prosiectau'n cael eu datblygu a'u cyflawni i safonau'r Cynllun Twf ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt
- Cefnogi datblygiad a chyflawniad prosiectau bwyd-amaeth a thwristiaeth presennol a phrosiectau datblygol yn y dyfodol
- Rhagweld a rheoli risgiau a manteision yn rhagweithiol ar draws y rhaglen
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid y sector a chymryd rhan mewn trafodaethau sector gan gynnwys byrddau perthnasol
- Datblygu ceisiadau am gyfleoedd ariannu cysylltiedig yn ôl yr angen ac arwain ar ddarparu'r gweithgareddau hynny
- Gweithio gyda rhanddeiliaid, partneriaid a llywodraethau rhanbarthol allweddol i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei cyflwyno'n llwyddiannus
- Cynnal ymchwil yn ôl yr angen i lywio datblygiad prosiect a chefnogi gwaith y Swyddfa Rheoli Portffolio ehangach

## Rheoli Prosiect

- Cefnogi a rheoli prosiectau/ffrydiau gwaith niferus
- Trefnu, paratoi ar gyfer, mynychu a chyfrannu i gyfarfodydd Bwrdd Rhaglen
- Paratoi ar gyfer, mynychu a chyfrannu i gyfarfodydd Byrddau Prosiect
- Darparu cefnogaeth broffesiynol, gan gynnwys sicrhau ansawdd, i brosiectau eraill fel sydd angen

## Rheoli Rhaglen a Phortffolio

- Cefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio ehangach gan gynnwys y rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch
- Cydlynu a rheoli'r rhyng-ddibyniaethau ar draws rhaglenni a phrosiectau
- Cefnogi gyda gwireddu buddion ar draws y portffolio

## Rheoli Adnoddau

- Gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithiol o adnoddau wrth gyflawni prosiectau

## Rheoli Perfformiad

- Rheoli perfformiad ac atebolrwydd ar lefelau allbynnau prosiectau
- Rheoli risg ac atebolrwydd ar lefelau allbynnau prosiectau

# Manylion Person

| Meinir Prawf | Hanfodol | Dymunol |
| --- | --- | --- |
| **Cymwysterau Addysgol / Proffesiynol** | | |
| • Gradd/ôl-radd mewn maes perthnasol (neu gyfatebol) | ☑ | |
| • Cymhwyster Rheoli Rhaglen / Prosiect (e.e. Ymarferydd PRINCE 2 neu gyfwerth) | | ☑ |
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | | |
| • Gwybodaeth am y sectorau bwyd-amaeth a thwristiaeth yn genedlaethol ac yn rhanbarthol | ☑ | |
| • Sgiliau rhyngberthnasol a sgiliau cyfathrebu effeithiol | ☑ | |
| • Gwybodaeth dda am ddulliau rheoli prosiectau | ☑ | |
| • Gwybodaeth dda am dechnegau cynllunio, monitro a rheoli prosiectau | ☑ | |
| • Llythrennog mewn TGCh, yn gyfforddus gyda Word, PowerPoint, Excel, cronfeydd data perthnasol a chyfryngau cymdeithasol | ☑ | |
| • Dealltwriaeth o arferion rheolaeth ariannol | ☑ | |
| • Dealltwriaeth o'r broses ysgrifennu bidiau / datblygu achosion busnes | | ☑ |
| **Profiad** | | |
| • Profiad o gefnogi prosiectau a rhaglenni | ☑ | |
| • Profiad o ymgysylltu gyda'r cyhoedd/rhanddeiliaid yn effeithiol | ☑ | |
| • Profiad o ddatblygu a rheoli perthnasau partneriaeth llwyddiannus gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws sectorau | ☑ | |
| • Profiad o weithio ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gydag uwch swyddogion | ☑ | |
| • Profiad o wneud ceisiadau am gyllid allanol a / neu ddatblygu achosion busnes | ☑ | |

